



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

**2000 Rhif 1799 (Cy.124)**

**2000 No. 1799 (W.124)**

**BWYD, CYMRU**

**FOOD, WALES**

**Rheoliadau Lliwiau mewn Bwyd  
(Diwygio) (Cymru) 2000**

**The Colours in Food (Amendment)  
(Wales) Regulations 2000**

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

*(This note is not part of the Regulations)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys i Gymru yn unig, yn diwygio Rheoliadau Lliwiau mewn Bwyd 1995 ("Rheoliadau 1995") drwy ddiweddarau cyfeiriad at Gyfarwyddeb y Comisiwn 95/45/EC sy'n gosod meini prawf penodol ynglŷn â lliwiau, sydd i'w defnyddio mewn bwydydd (OJ Rhif L226, 22.9.95, t.1) er mwyn ymdrin â'r diwygiad a wnaed gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 1999/75/EC (OJ Rhif L206, 5.8.1999, t.19), a newidiodd y fanyleb ar gyfer "E160a(i) Mixed Carotenes", a thrwy ddiweddarau'r cyfeiriadau at Rheoliadau 1995 mewn Rheoliadau eraill.

Mae Rheoliadau 1995 yn pennu o dan ba amgylchiadau y caniateir defnyddio neu werthu lliwiau (a ddiffinir fel ychwanegion bwyd y bwriedir eu defnyddio ar gyfer y prif bwrpas o ychwanegu neu adfer lliwiau mewn bwyd). Caiff unrhyw liw ei ganiatáu felly dim ond os yw'n bodloni meini prawf purdeb a bennir yng Nghyfarwyddeb y Comisiwn 95/45/EC.

These Regulations, which apply only to Wales, amend the Colours in Food Regulations 1995 ("the 1995 Regulations") by bringing up to date a reference to Commission Directive 95/45/EC laying down specific criteria concerning colours for use in foodstuffs (OJ No. L226, 22.9.95, p.1), so as to cover its amendment by Commission Directive 1999/75/EC (OJ No. L206, 5.8.1999, p.19) which changed the specification for "E160a(i) Mixed Carotenes", and by bringing up to date references to the 1995 Regulations in other Regulations.

The 1995 Regulations specify the circumstances in which colours (defined as being food additives which are used or intended to be used for the primary purpose of adding or restoring colouring in food) are permitted to be used or sold. Any colour can only be so permitted if it satisfies the purity criteria specified in Commission Directive 95/45/EC.

**2000 Rhif 1799 (Cy.124)****2000 No. 1799 (W.124)****BWYD, CYMRU****FOOD, WALES****Rheoliadau Lliwiau mewn Bwyd  
(Diwygio) (Cymru) 2000****The Colours in Food (Amendment)  
(Wales) Regulations 2000**

*Wedi'u gwneud* 7 Gorffennaf 2000  
*Yn dod i rym* 8 Gorffennaf 2000

*Made* 7th July 2000  
*Coming into force* 8th July 2000

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i Weinidogion y Goron gan adrannau 6(4), 16(1)(a) ac (e), 17(1), 26(1) a (3) a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(a) a pharagraff 1 o Atodlen 1 iddi, ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(b), ar ôl iddo ystyried y cyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn unol ag adran 48 (4A) o'r Ddeddf honno ac ar ôl iddo, yn unol ag adran 48(4) a (4B) o'r Ddeddf honno, ymgynghori â'r cyrff hynny y mae'n ymddangos iddo eu bod yn cynrychioli buddiannau y mae'n debygol yr effeithir arnynt yn sylweddol gan y Rheoliadau canlynol, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

In exercise of powers conferred on Ministers of the Crown by sections 6(4), 16(1)(a) and (e), 17(1), 26(1) and (3) and 48(1) of, and paragraph 1 of Schedule 1 to, the Food Safety Act 1990(a), and now vested in the National Assembly for Wales(b), after having regard in accordance with section 48 (4A) of that Act to relevant advice given by the Food Standards Agency and after consultation in accordance with section 48(4) and (4B) of that Act with such organisations as appear to it to be representative of interests likely to be substantially affected by the following Regulations, the National Assembly for Wales makes the following Regulations:

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli****Citation, commencement, application and interpretation**

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Lliwiau mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2000, deuant i rym ar 8 Gorffennaf 2000 a byddant yn gymwys i Gymru.

1.-(1) These Regulations may be cited as the Colours in Food (Amendment) (Wales) Regulations 2000, shall come into force on 8th July 2000 and shall apply to Wales.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y prif Reoliadau" ("*the principal Regulations*") yw Rheoliadau Lliwiau mewn Bwyd 1995(c).

(2) In these Regulations "the principal Regulations" ("*y prif Reoliadau*") means the Colours in Food Regulations 1995(c).

**Diwygio'r prif Reoliadau****Amendment of the principal Regulations**

2. -Diwygir y prif Reoliadau, i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru, drwy ychwanegu, ar ddiwedd y diffiniad o "Directive 95/45/EC" yn rheoliad 2(1), y geiriau", as amended by Directive 1999/75/EC"(ch).

2.-The principal Regulations, in so far as they apply to Wales, shall be amended by the addition, at the end of the definition of "Directive 95/45/EC" in regulation 2(1), of the words", as amended by Directive 1999/75/EC"(d).

(a) 1990 p.16; Diwygiwyd adran 6(4) o'r Ddeddf gan baragraff 6 o Atodlen 9 i Ddeddf Dadrooleiddio a Chontractio Allan 1994 (p.40) a chan baragraff 10(3) o Atodlen 5 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (p.28). Diwygiwyd adran 48 gan baragraff 21 o Atodlen 5 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (p.28).

(a) 1990 c.16; Section 6(4) of the Act was amended by paragraph 6 of Schedule 9 to the Deregulation and Contracting Out Act 1994 (c.40) and by paragraph 10(3) of Schedule 5 to the Food Standards Act 1999 (c.28). Section 48 was amended by paragraph 21 of Schedule 5 to the Food Standards Act 1999 (c.28).

(b) Trosglwyddwyd swyddogaethau a freiniwyd yng Ngweinidogion y Goron mewn perthynas â Chymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan O.S. 1999/672.

(b) Functions vested in Ministers of the Crown were, in relation to Wales, transferred to the National Assembly for Wales by S.I. 1999/672.

(c) O.S. 1995/3124.

(c) S.I. 1995/3124.

(ch) OJ Rhif L206, 5.8.99, t.19.

(d) OJ No. L206, 5.8.99, p.19.

## Darpariaeth ganlyniadol

3.-(1) Cymerir bod cyfeiriadau at y prif Reoliadau yn y darpariaethau a restrir ym mharagraff (2) isod, i'r graddau y mae'r darpariaethau hynny'n gymwys i Gymru, yn gyfeiriadau at y prif Reoliadau fel y'u diwygiwyd gan y Rheoliadau hyn.

(2) Dyma'r darpariaethau y mae paragraff (1) uchod yn cyfeirio atynt -

- (a) y diffiniad o "permitted colour" yn rheoliad 2(1) (dehongli) o Reoliadau Jam a Chynhyrchion Tebyg 1981(a);
- (b) y diffiniad o "additive" yn rheoliad 2(1) (dehongli) o Reoliadau Cynhyrchion Cig a Chynhyrchion Pysgod Taenadwy 1984(b);
- (c) y diffiniad o "colour" yn Rhan II o Atodlen 1 (categoriâu o ychwanegion bwyd) i Reoliadau Labelu Ychwanegion Bwyd 1992(c);
- (ch) y diffiniad o "colour" yn rheoliad 2(1) (dehongli) o Reoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol 1995(ch); a
- (d) y diffiniad o "the additives Regulations" yn rheoliad 2(1) (dehongli) o Reoliadau Labelu Bwyd 1996(d).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(dd)

7 Gorffennaf 2000

*Jane Davidson*

Y Dirprwy Lywydd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Consequential provision

3.-(1) References to the principal Regulations in the provisions listed in paragraph (2) below shall, in so far as those provisions apply to Wales, be taken to be references to the principal Regulations as amended by these Regulations.

(2) The provisions to which paragraph (1) above refers are -

- (a) the definition of "permitted colour" in regulation 2(1) (interpretation) of the Jam and Similar Products Regulations 1981(a);
- (b) the definition of "additive" in regulation 2(1) (interpretation) of the Meat Products and Spreadable Fish Products Regulations 1984(b);
- (c) the definition of "colour" in Part II of Schedule 1 (categories of food additives) to the Food Additive Labelling Regulations 1992(c);
- (d) the definition of "colour" in regulation 2(1) (interpretation) of the Miscellaneous Food Additives Regulations 1995(d); and
- (e) the definition of "the additives Regulations" in regulation 2(1) (interpretation) of the Food Labelling Regulations 1996(e).

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(f)

7th July 2000

The Deputy Presiding Officer, National Assembly for Wales

---

(a) O.S. 1981/1063; yr offeryn diwygio perthnasol yw O.S. 1995/3124.  
(b) O.S. 1984/1566; yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 1995/3123, 1995/3124 a 1995/3187.  
(c) O.S. 1992/1978; yr offeryn diwygio perthnasol yw O.S. 1995/3124.  
(ch) O.S. 1995/3187; y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.  
(d) O.S. 1996/1499; y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn; gweler hefyd O.S. 1999/1136.  
(dd) 1998. p.38.

---

(a) S.I. 1981/1063; the relevant amending instrument is S.I. 1995/3124.  
(b) S.I. 1984/1566; relevant amending instruments are S.I. 1995/3123, 1995/3124 and 1995/3187.  
(c) S.I. 1992/1978; the relevant amending instrument is S.I. 1995/3124.  
(d) S.I. 1995/3187; to which there are amendments not relevant to these Regulations.  
(e) S.I. 1996/1499; to which there are amendments not relevant to these Regulations; see also S.I. 1999/1136.  
(f) 1998. c.38.

---

OFFERYNNAU STATUDOL

---

**2000 Rhif (Cy. )**

**BWYD, CYMRU**

Rheoliadau Lliwiau mewn Bwyd  
(Diwygio) (Cymru) 2000

---

STATUTORY INSTRUMENTS

---

**2000 No. (W. )**

**FOOD, WALES**

The Colours in Food (Amendment)  
(Wales) Regulations 2000

© Hawlfraint y Goron 2000

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg El Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

**£1.50**

WO6143 07/00 ON

© Crown copyright 2000

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090095-2



9 780110 900957